**EUR-03-01(p6)**
**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

Dyddiad: 23 Mai 2001

Amser: 9.30am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad

**Teitl: Aelodaeth y Gynhadledd ar Ranbarthau Ymylol a Morwrol (CPMR), Cynulliad Rhanbarthau Ewropeaidd (AER) a sefydliadau Ewropeaidd eraill**

## Diben

1. Gwahodd aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd i gefnogi aelodaeth o'r CPMR tra'n parhau i ystyried a chadw llygad ar AER.

## Cefndir

2. Yn ystod eich cyfarfod diwethaf cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Mr Gizard a Mr Ostdahl o'r Gynhadledd ar Ranbarthau Ymylol a Morwrol (Conference on Peripheral and Maritime Regions – CPMR). Yn ystod cyfarfod blaenorol cafwyd cyflwyniad am waith y Cynulliad Rhanbarthau Ewropeaidd (Assembly of European Regions – AER) gan Mr de Belder.

3. Rhaid penderfynu a ddylem fod yn aelodau o'r sefydliadau hyn, gan ystyried y gwerth am arian, y manteision a'r goblygiadau adnoddau dynol.

4. Cafodd gwaith a strwythur y ddau sefydliad eu disgrifio yn fanwl yn ystod y cyflwyniadau. Byddai sicrhau bod y Cynulliad yn aelod o'r CPMR yn costio 27,500 Ewro, tua £17, 200 y flwyddyn. Nid yw hyn ystyried y costau cysylltiedig, sef teithio a chynhaliaeth. Byddai cost aelodaeth AER tua'r un faint.

## O blaid ac yn erbyn

5. Mae'r ddau sefydliad yn cynnig llwybr i'r Cynulliad rwydweithio gyda'r gymuned Ewropeaidd ehangach. Er mwyn i'r aelodaeth fod yn effeithiol byddai'n rhaid i'r Cynulliad ddangos ymrwymiad ar lefel wleidyddol a swyddogion er mwyn sicrhau'r gwerth llawn.

Rhaid ystyried yr ymrwymiad ariannol, sy'n sylweddol, ar y cyd â'r goblygiadau adnoddau dynol o ran mynychu cyfarfodydd ac adeiladu proffil y Cynulliad.

6. Yn sgîl hyn, ni fyddai'n synhwyrol i'r Cynulliad ymuno â'r ddau sefydliad ar yr un pryd. Gweithred mwy cymhedrol fyddai ymuno ag un ohonynt a defnyddio'r profiad i werthuso manteision rhwydweithio Ewropeaidd yn ymarferol. Nid yw ymuno ag un ohonynt yn awr yn ein rhwystro rhag ymuno â'r llall yn ddiweddarach.

7. Ar y cyfan, ymddengys bod y CPMR yn well man dechreuol i'r Cynulliad na'r AER, am y rhesymau a ganlyn:

- mae gan It seems better organised and their presentation to the Committee was more effective;CPMR ffocws cliriach ar bolisi. Mae ganddo lai o aelodau, mae'n fwy hylaw, ac yn canolbwyntio mwy ar fanylion polisi;
- mae CPMR yn canolbwyntio mwy ar bolisi mewn meysydd y mae'r Cynulliad yn ymwneud â hwy – y cyrion economaidd, amgylchedd morwrol ac ati; mae'r AER yn fwy o ran maint ac yn fwy cyffredinol;
- Trwy'r modd y mae wedi ei ymrannu yn 'arcau' mae'r CPMR yn cynnig cymunedau daeryddol cliriach sydd o ddiddordeb tra'n parhau i gynnig manteision ehangach gr•p pan-Ewropeaidd mwy;
- Mae AER wedi colli ei Ysgrifennydd Cyffredinol yn ddiweddar (Mr Hans De Belder, a fu'n anerch y Pwyllgor hwn) wedi iddo ymddiswyddo. Mae'r AER yn chwilio am Ysgrifennydd Cyffredinol newydd ar hyn o bryd a bydd yn gwneud mwy o synnwyr i edrych ar y corff yma eto pan fo deilydd newydd y swydd wedi cael cyfle i ymgyfarwyddo.

**Argymhelliad**

8. Bod y Cynulliad yn gwneud cais i ymaelodi â'r CPMR gynted ag y bo modd, gyda'r nod o gael ei gyflwyno fel aelod newydd yn ystod y Cyfarfod Blynyddol eleni yn Oporto, Portiwgal, ar 20/21 Medi. Mae'r pwerau gwneud penderfyniad yn nwylo Prif Weinidog y Cynulliad ond bydd llais llywio oddi wrth y Cynulliad yn rhoi awdurdod a phwysigrwydd ychwanegol i unrhyw gais.

9. Bod y Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad ag AER ar lefel swyddogol. Pan – ac os – bydd y Cynulliad wedi sefydlu ei hun yn y CPMR efallai y bydd yn fuddiol ystyried AER eto.

**Des Clifford**

**Cyfarwyddiaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol**